Atodlen 1

RÔL A CHYFRIFOLDEBAU

Aelod gweinidogol gwirfoddol Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn ymwneud â phob agwedd ar wasanaethau iechyd, ac mae'r aelodau yn chwarae rôl bwysig wrth ddylanwadu ar y ffordd y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu cynllunio a'u darparu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer iechyd a llesiant pobl Cymru, heddiw ac yn y dyfodol. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli llais annibynnol cleifion a'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Rôl benodol y Cynghorau Iechyd Cymuned yw:

- helpu pobl i gael y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt eu hunain ac i'r rheini y maent yn gofalu amdanynt, drwy gynnig gwybodaeth a chyngor am iechyd a gwasanaethau cysylltiedig yn yr ardal leol,

- gwrando ar yr hyn sydd gan unigolion a'r gymuned i'w ddweud am wasanaethau iechyd o ran swm ac ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, mynediad atynt a'u priodoldeb,

- gweithredu fel llais i'r cyhoedd drwy hysbysu rheolwyr gwasanaethau iechyd am yr hyn y mae pobl ei eisiau a sut gellir gwella pethau,

- meithrin perthynas dda â darparwyr gwasanaethau iechyd lleol,

- ymgynghori'n uniongyrchol â'r cyhoedd ynghylch materion penodol; a throsglwyddo barn y cyhoedd i ddarparwyr gwasanaethau iechyd lleol neu Lywodraeth Cymru,

- rhoi cymorth, cyngor a chefnogaeth i bobl sydd am leisio pryder ynghylch gwasanaethau'r GIG.

Caiff Cynghorau Iechyd Cymuned eu cefnogi gan Fwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned, sy'n gweithio ar lefel strategol genedlaethol, yn cynghori ac yn cynorthwyo'r holl Gynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru.

Rheoli Perfformiad

a) Byddwch yn derbyn asesiad rheoli perfformiad blynyddol. Mae'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus yn datgan nad oes modd ailbenodi neu ymestyn penodiad heb werthusiad perfformiad boddhaol, ac mae'n rhaid darparu tystiolaeth i'r Comisiynydd ar gais.

b) Nid oes modd ailbenodi'n awtomatig, ac mae rhagdybiaeth gadarn na ddylai unigolyn wasanaethu am fwy na dau dymor.

c) Wrth ystyried penodiad, rhaid i'r Gweinidog ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys, ymysg eraill, amrywiaeth aelodaeth y Cyngor Iechyd Cymuned, a'r cydbwysedd o ran sgiliau a phrofiad. Bydd y Cyngor Iechyd Cymuned yn monitro cydraddoldeb yn flynyddol er mwyn medru rhoi'r wybodaeth hon i'r Gweinidog wrth argymell penodiadau.

Atodlen 2

PROSES ASESU AELODAU

Bob blwyddyn bydd gofyn i'r aelodau lenwi ffurflen hunanasesu a mynychu cyfarfod asesu aelodau. Lluniwyd y broses hon er mwyn i aelodau roi manylion am eu cyfraniad i'r Cyngor Iechyd Cymuned; a nodi meysydd lle byddent yn hoffi gwneud mwy.

Mae'r ffurflen asesu aelodau hefyd yn darparu tystiolaeth ar gyfer ailbenodiadau. Ar gyfer aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru, bydd yr enghreifftiau sy'n cael eu darparu yn dangos i'r Gweinidog beth oedd cyfraniad yr aelod yn y gorffennol a sut mae'n bwriadu cyfrannu yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn disgwyl i bob aelod gyfrannu'n gadarnhaol mewn pedwar maes allweddol o weithgarwch y Cyngor Iechyd Cymuned.

Mae gofyn i'r aelodau ddweud wrthym beth oedd eu cyfraniad bob blwyddyn ym mhob un o'r meysydd hyn. Rydym wedi darparu rhai dangosyddion isod i ddangos sut y gallai hynny edrych yn ymarferol.

Cynnal a gwella amlygrwydd ac enw da y Cyngor Iechyd Cymuned
Dylai'r aelodau: • Hyrwyddo rôl y Cyngor Iechyd Cymuned wrth ymwneud â'r cyhoedd a phartneriaid • Gweithredu yn unol â'r Cod Ymddygiad a'r Safonau Cenedlaethol • Datblygu a chynnal perthynas â phartneriaid a rhanddeiliaid, gan herio'n adeiladol lle bo'n briodol • Gweithredu mewn ffordd sy'n ystyried eu diogelwch eu hunain a diogelwch eraill
Ymwneud yn effeithiol â'r cleifion a'r cyhoedd
Dylai'r aelodau: • Weithredu o fewn cwmpas eu rôl, gan atgyfeirio at Wasanaeth Eirioli pan fo unigolion am fynegi pryder penodol. • Egluro wrth gleifion a'r cyhoedd beth yw pwrpas yr ymgysylltu a sut y bydd eu hadborth yn cael ei ddefnyddio • Mynd ati i ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol, gan annog a chefnogi cleifion a'r cyhoedd i rannu eu barn a'u profiadau. • Parchu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. • Annog a gwerthfawrogi amrywiaeth eang o sylwadau a phrofiadau

Cynrychioli buddiannau'r cleifion a'r cyhoedd
Dylai'r aelodau: • Gynrychioli'r Cyngor Iechyd Cymuned yn briodol mewn cyfarfodydd, gan gynnal y safbwynt a gytunwyd ar gyfer y Cyngor Iechyd Cymuned lle bo hynny'n briodol a sicrhau bod sylwadau sy'n cael eu mynegi unol â'r dystiolaeth berthnasol gan gleifion a'r cyhoedd. • Cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd yn adeiladol ac o fewn cwmpas rôl yr aelod. • Cyfrannu'n adeiladol yng nghyfarfodydd y Cyngor Iechyd Cymuned.
Adrodd yn wrthrychol ac yn glir
Dylai'r aelodau: • Sicrhau bod pob mater allweddol yn cael ei gofnodi'n effeithiol ac yn amserol • Cynnal cyfrinachedd ac ymdrin â gwybodaeth bersonol mewn ffordd briodol • Cydnabod materion diogelu ac uwchgyfeirio'n briodol.

Yng nghyfarfod asesu'r aelodau, bydd gofyn i'r aelodau gytuno ar amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod; a ffyrdd o gynnal neu ychwanegu at eu cyfraniad yn unol â chynlluniau a blaenoriaethau'r Cyngor Iechyd Cymuned. Gallai'r amcanion hyn gynnwys yr angen i ddatblygu mewn meysydd lle mae'r cyfraniad wedi bod yn gyfyngedig hyd yma.

Bydd yr aelodau hefyd yn cael eu holi am unrhyw ddysgu neu gymorth pellach a fyddai'n eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

Ar ddiwedd y cyfarfod bydd yr asesydd yn darparu crynodeb gyffredinol o gyfraniad yr aelod o'r enghreifftiau a roddwyd ac o'r drafodaeth. Bydd cyfle hefyd i'r aelod ychwanegu sylwadau terfynol i'r ffurflen.

Ar ôl eu cwblhau, defnyddir y ffurflenni i lunio cynlluniau datblygu i'r aelodau, a darparu tystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ynghylch ailbenodi.

Atodiad A

SAITH EGWYDDOR BYWYD CYHOEDDUS

Anhunanoldeb
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig.

Uniondeb
Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus roi eu hunain dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu gyrff a allai geisio dylanwadu'n amhriodol ar y ffordd y maent yn gwneud eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu'n faterol. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau neu berthynas.

Gwrthrychedd
Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiduedd, yn deg ac ar sail haeddiant, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na rhagfarn.

Atebolrwydd
Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt oddef pa bynnag graffu sy'n briodol i'w swydd.

Bod yn Agored
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn ffordd agored a thryloyw. Ni ddylid cadw gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

Gonestrwydd
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.

Arweinyddiaeth
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain. Dylid hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn a bod yn barod i herio ymddygiad gwael, ble bynnag y bo'n digwydd.

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i bob agwedd ar fywyd cyhoeddus.
Mae'r Pwyllgor wedi eu gosod er lles pawb sy'n gwasanaethu'r cyhoedd mewn unrhyw ffordd.

Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus
www.public-standards.gov.uk

ATODIAD B

CABINET OFFICE

CODE OF CONDUCT FOR MEMBERS OF PUBLIC BODIES

JUNE 2011

FOREWORD

The Government expects all holders of public office to work to the highest personal and professional standards. In support of this, all non-executive board members of UK public bodies[1] must abide by the principles set out in this Code of Conduct. The Code sets out, clearly and openly, the standards expected from those who serve on the boards of UK public bodies[1] and should form part of individual members' terms and conditions of appointment. Any breach of the Code should be viewed as a breach of those terms and conditions of appointment.

This *Code* replaces *Guidance on Codes of Practice for Members of Public Bodies* issued by the Cabinet Office in 2004.

Any questions on the *Code* should be directed to:
Propriety and Ethics Team
Cabinet Office
70 Whitehall
LONDON
SW1A 2AS
Tel: 020 7276 0269/0387
Copies of the *Code* can be downloaded from:

www.cabinetoffice.gov.uk/content/public-bodies-and-appointments 3 4

1 1 The principles set out in this Code should apply to all non-executive members on the boards of Government Departments, non-Ministerial Departments, Executive Agencies, Executive and Advisory non-department public bodies (NDPBs) and national public corporations.

CODE OF CONDUCT FOR BOARD MEMBERS OF PUBLIC BODIES

CONTENTS

1. Introduction 5

2. Key Principles of Public Life 5

3. General Conduct 6

Use of Public Funds 6

Allowances 6

Gifts and Hospitality 7

Use of Official Resources 7

Use of Official Information 7

Political Activity 7

Employment and Appointments 8

4. Members' Interests 8

5. Responsibilities as a Board Member 9

6. Responsibilities towards Employees 9

CODE OF CONDUCT FOR BOARD MEMBERS OF PUBLIC BODIES

1. INTRODUCTION

1.1 As a public office-holder, your behaviour and actions must be governed by the principles set out in this Code of Conduct. It is your responsibility to ensure that you are familiar with, and comply with, all the relevant provisions of the Code.

2. KEY PRINCIPLES OF PUBLIC LIFE

2.1 The key principles upon which this Code of Conduct is based are the Seven Principle of Public Life[2]. These are:

Selflessness

You should take decisions solely in terms of the public interest. You should not do so in order to gain financial or other material benefits for yourself, your family or your friends.

Integrity

You should not place yourself under any financial or other obligation to outside individuals or organisations that might, or might be perceived to, influence you in the performance of your official duties.

Objectivity

In carrying out public business, including awarding contracts and recommending individuals for rewards and benefits, you should make choices on merit.

Accountability

You are accountable for your decisions and actions to the public and must submit yourself to whatever scrutiny is appropriate for your office. 6

Openness

You should be as open as possible about the decisions and actions that you take. You should give reasons for your decisions and restrict information only when the wider public interest clearly demands.

Honesty

You have a duty to declare any private interests relating to your public duties and to take steps to resolve any conflicts arising in a way that protects the public interest.

Leadership

You should promote and support these principles by leadership and example.

---

[2] *Standards in Public Life: First Report of the Committee on Standards in Public Life*. Volume 1: Report. CM 2850-I.

2.2 These principles should inform your actions and decisions as a board member.

3. GENERAL CONDUCT

Use of Public Funds

3.1 You have a duty to ensure the safeguarding of public funds[3] and the proper custody of assets which have been publicly funded.

3.2 You must carry out your fiduciary obligations responsibly – that is, take appropriate measures to ensure that the body uses resources efficiently, economically and effectively, avoiding waste and extravagance. It will always be an improper use of public funds for public bodies to employ consultants or other companies to lobby Parliament, Government or political parties.

Allowances

3.3 You must comply with the rules set by the board and the public body regarding remuneration, allowances and expenses. It is your responsibility to ensure compliance with all relevant HM Revenue and Customs' requirements concerning payments, including expenses. 7

Gifts and Hospitality

3.4 You must not accept any gifts or hospitality which might, or might reasonably appear to, compromise your personal judgement or integrity or place you under an improper obligation.

3.5 You must never canvass or seek gifts or hospitality.

3.6 You must comply with the rules set by the body on the acceptance of gifts and hospitality. You should inform the Chief Executive (or equivalent) of any offer of gifts or hospitality and ensure that, where a gift or hospitality is accepted, this is recorded in a public register in line with the rules set by the body.

3.7 You are responsible for your decisions on the acceptance of gifts or hospitality and for ensuring that any gifts or hospitality accepted can stand up to public scrutiny and do not bring the public body into disrepute.

Use of Official Resources

3.8 You must not misuse official resources[4] for personal gain or for political purposes. Use of such resources must be in line with the body's rules on their usage.

Use of Official Information

3.9 You must not misuse information gained in the course of your public service for personal gain or for political purpose[5]

---

[3] This should be taken to include all forms of receipts from fees, charges and other sources.

[4] 4 This includes facilities, equipment, stationery, telephony and other services.

3.10 You must not disclose any information which is confidential in nature or which is provided in confidence without authority. This duty continues to apply after you have left the board.

Political Activity[6]

3.11 In your public role, you should be, and be seen to be, politically impartial. You should not occupy a paid party political post or hold a particularly sensitive or high-profile role in a political party. You should abstain from all controversial political activity and comply with Cabinet Office rules on attendance at Party Conferences[7].

3.12 On matters directly related to the work of the body, you should not make political statements or engage in any other political activity.

3.13 In your official capacity, you should be even-handed in all dealings with political parties.

3.14 Subject to the above, you may engage in political activity but should, at all times, remain conscious of your responsibilities as a board member and exercise proper discretion. You should inform the Chair and/or the parent Department before undertaking any significant political activity.

Employment and Appointments

3.15 If you wish to take up new employment or appointments during your term of office, you must inform the Chair and/or the relevant parent Department.

3.16 On leaving office, you must comply with the rules of the body on the acceptance of future employment or appointments.

4. MEMBERS' INTERESTS

4.1 You must ensure that no conflict arises, or could reasonably be perceived to arise, between your public duties and your private interests – financial or otherwise.

4.2 You must comply with the rules of the body on handling conflicts of interests. As a minimum, these will require you to declare publicly any private interests which may, or may be perceived to, conflict with your public duties[8]. The rules will also require you to remove yourself from the discussion or determination of matters in which you have a financial interest. In matters in which you have a non-financial interest, you should not

---

5 Board members who misuse information gained by virtue of their position may be liable for breach of confidence under common law or may commit a criminal offence under insider dealing legislation

6 If you are an MP, Member of the House of Lords, Member of a Devolved Administration or Local Councillor, you are exempt from these requirements - although you should still exercise proper discretion on matters directly related to the work of the body and recognise that certain political activities may be incompatible with your role as a board member.

7 7 www.cabinetoffice.gov.uk/content/public-bodies-and-appointments

8 In general, all financial interests should be declared. When considering what non-financial interests should be declared, you should ask yourself whether a member of the public, acting reasonably, would consider that the interest in question might influence your words, actions or decisions.

participate in the discussion or determination of a matter where the interest might suggest a danger of bias[9]

4.3 It is your responsibility to ensure that you are familiar with the body's rules on handling conflicts of interests, that you comply with these rules and that your entry in the body's register of members' interests is accurate and up-to-date.

5 RESPONSIBILTIES AS A CHC MEMBER

5.1 You should play a full and active role in the work of the body. You should fulfil your duties and responsibilities responsibly and, at all times, act in good faith and in the best interests of the body.

5.2 You should deal with the public and their affairs fairly, efficiently, promptly, effectively and sensitively, to the best of your ability. You must not act in a way that unjustifiably favours or discriminates against particular individuals or interests.

5.3 You must comply with any statutory or administrative requirements relating to your post[10].

5.4 You should respect the principle of collective decision-making and corporate responsibility. This means that, once the board has made a decision, you should support that decision.

5.5 You must not use, or attempt to use, the opportunity of public service to promote your personal interests or those of any connected person, firm, business or other organisation.

6. RESPONSIBILITIES TOWARDS EMPLOYEES

6.1 You will treat any staff employed by the body with courtesy and respect. It is expected that employees will show you the same consideration in return.

[i]6.2 You will not ask or encourage employees to act in any way which would conflict with their own Code of Conduct. 1 0

9 9 These are common law provisions.

10 10 In the case of a body incorporated under the Companies Act or the Companies (Northern Ireland) Order, you will also be subject to the duties of directors under company law. In the case of a body that has charitable status, you will also be subject to the duties of trustees under charities law.

ATODIAD C

COD YMDDYGIAD AR GYFER AELODAU CYNGHORAU IECHYD CYMUNED

Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned
Mae aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned wedi ymrwymo i wasanaethau lleol y GIG ac maent yn rhoi cryn dipyn o'u hamser personol i'r perwyl hwnnw. Mae pob aelod yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod eu Cyngor yn gweithio'n effeithiol. Diben y canllawiau a ganlyn yw sicrhau bod aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned yn gwybod beth yw'r disgwyliadau a'r cyfrifoldebau sydd arnynt a'r safonau y dylent lynu wrthynt wrth gyfrannu at yr agwedd bwysig a gwerthfawr hon ar fywyd cyhoeddus.

Mae'r Cod yn berthnasol i holl aelodau'r Cynghorau, p'un a ydynt yn cael eu penodi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, awdurdodau lleol neu'r sector gwirfoddol. Mae hefyd yn berthnasol i aelodau cyfetholedig y Cynghorau Iechyd Cymuned, yn ogystal â Chadeirydd ac aelodau annibynnol o'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned.

CYFLWYNIAD:
1. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn gyrff statudol sy'n annibynnol ar wasanaethau iechyd lleol, sydd â dyletswydd i gynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn y gwasanaeth iechyd. Mae'r aelodau'n rhoi o'u hamser yn ddi-dâl. Maent yn monitro swyddogaethau'r gwasanaeth iechyd yn eu hardal ac yn ceisio sicrhau bod anghenion iechyd y gymuned y maent yn ei gwasanaethu'n cael eu nodi.

2. Mae effeithiolrwydd y Cynghorau'n dibynnu'n rhannol ar ganfyddiad y cyhoedd am eu henw da a'u statws. Yn benodol, mae'r Cynghorau'n fwy tebygol o fod yn effeithiol os oes ganddynt enw da am siarad ag awdurdod ar sail eu profiad uniongyrchol a'u gwybodaeth am farn a safbwyntiau'r cleifion a'r gymuned leol.

3. Mae'n bwysig felly bod darpar aelodau'r Cynghorau yn deall cyn eu penodi yr hyn a ddisgwylir ganddynt yn y gwaith cyhoeddus pwysig hwn. Felly, cyn cynnig, enwebu neu gefnogi unrhyw ddarpar aelod o Gyngor, dylai'r corff penodi (Awdurdod Lleol, corff gwirfoddol neu Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) roi'r Cod Ymddygiad hwn iddynt, ynghyd â gwybodaeth ehangach am y disgwyliadau a'r cyfrifoldebau o fod yn aelod o Gyngor. Wedi eu hethol a'u penodi, dylai aelodau'r Cynghorau Iechyd Cymuned weithredu'n unol â'r Cod hwn a'r disgwyliadau, y cyfrifoldebau a'r safonau a ddisgrifir yn yr wybodaeth berthnasol a ddarperir gan y corff sefydlu, y corff penodi neu'r Cyngor ei hun.

4. Cyn eu penodi, bydd yn ofynnol i bob aelod newydd o Gyngor lofnodi datganiad y bydd yn ymddwyn yn unol â'r Cod. Mae disgwyl i aelodau presennol hefyd gadw at y Cod. Os na fyddant yn cadw ato, bydd y corff sefydlu sy'n gweithredu ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn trin hynny'n ddifrifol iawn ac, mewn rhai amgylchiadau, gellid terfynu eu haelodaeth.

Y GWERTHOEDD SYDD WRTH WRAIDD GWAITH Y CYNGHORAU

5. Ymhlith y gwerthoedd sydd wrth wraidd gwaith y Cynghorau mae:

(i) Atebolrwydd. Mae'n rhaid i bopeth y mae'r Cynghorau'n ei wneud allu gwrthsefyll craffu gan y cyhoedd, y Cynulliad a'r llysoedd.

(ii)Uniondeb. Dylai hyn nodweddu pob cysylltiad personol rhwng aelodau'r Cynghorau ac aelodau unigol o'r cyhoedd er mwyn cadw gwybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddienw lle bo hynny'n briodol ac wrth ymdrin â gwybodaeth a gafwyd wrth arfer dyletswyddau'r Cyngor ac yn ystod ei drafodaethau.

(iii)Bod yn agored. Dylai gweithgareddau'r Cynghorau bob amser fod yn ddigon agored i ennyn hyder y cyhoedd, y cleifion, sefydliadau iechyd a'r Cynulliad.

RHWYMEDIGAETH AELODAU'R CYNGHORAU IECHYD CYMUNED

6. Gall Gweinidogion Cymru indemnio Cyngor neu'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yn erbyn unrhyw gostau cyfreithiol rhesymol a threuliau a gaiff eu hysgwyddo mewn modd rhesymol mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau. Bydd Gweinidogion Cymru yn amlinellu telerau'r indemniad o dro i dro.

7. Mae angen i'r Cynghorau allu dangos eu bod yn gweithredu'n effeithiol ac yn broffesiynol wrth arfer eu cyfrifoldebau statudol. Dylai fod ganddynt y canlynol:

(i) Gweithdrefnau clir (ee rheolau sefydlog)

(ii) Trefniadau clir ar gyfer ymdrin â materion ariannol;

(iii) Datganiadau clir ar y polisi cyfle cyfartal;

(iv) Trefniadau clir ar gyfer datgelu buddiannau a allai achosi gwrthdaro a'u cofnodi;

(v) Gweithdrefnau clir ar gyfer ymdrin â chwynion am y Cyngor Iechyd Cymuned, ei staff neu aelodau unigol.

8. Cyfrifoldeb penodol i Brif Swyddog a Chadeirydd y Cyngor yw sicrhau bod y systemau hyn ar waith ac y cynhelir busnes y Cyngor yn unol â hwy. Er hynny, mae cyfrifoldeb ar bob aelod i gyfrannu at ddatblygu'r gweithdrefnau hyn a'u parchu pan fyddant ar waith. Wedi eu henwebu a'u hethol i'r Cyngor, dylai'r aelodau gadw at y gweithdrefnau, y gweithredoedd a'r penderfyniadau a wneir gan y Cyngor corfforaethol hyd yn oed os na fydd hynny'n cyd-fynd â'u barn bersonol hwy.

YMDDYGIAD PERSONOL

9. Dylai aelodau'r Cynghorau ymddwyn mewn modd sy'n cynnal uniondeb y Cyngor a'i safle yn y gymuned, y GIG a'r cyrff eraill y maent yn cyfathrebu â hwy. Disgwylir i'r aelodau ymddwyn yn gwrtais ac yn feddylgar tuag at eraill, a rhoi beirniadaeth adeiladol pan fo hynny'n briodol. Ni ddylai aelodau fel rheol weithredu fel cynrychiolwyr y Cyngor Iechyd Cymuned, boed hynny mewn fforwm cyhoeddus neu mewn trafodaethau preifat neu anffurfiol, oni fydd Cadeirydd y Cyngor a/neu'r Prif Swyddog yn gwybod am hynny ac wedi rhoi cymeradwyaeth. Ni ddylai'r aelodau ddefnyddio'u statws i ddenu sylw'r cyfryngau na sylw o fath arall er mwyn hybu eu buddiannau personol, sefydliadol, masnachol neu bleidiol. Dylid cadw at Ddeddf y Cynghorau Iechyd Cymuned (Hawl i Weld Gwybodaeth) 1988, sydd wedi ei ddiwygio gan Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003 a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Dylai aelodau

hefyd ymgyfarwyddo â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

CYSYLLTIADAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS

10. Bydd yr aelodau'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd o ddydd i ddydd ac fe ddylent fanteisio ar bob cyfle i sôn am waith y Cyngor. Fodd bynnag, am eu bod yn aelodau o'r Cyngor Iechyd Cymuned, efallai y bydd pobl yn gofyn iddynt weithiau am gyngor penodol, ee am faterion meddygol neu gwynion posib am y gwasanaeth iechyd. Er mwyn amddiffyn enw da'r Cyngor a sicrhau na fydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor na'r aelod am roi gwybodaeth anghywir, ni ddylai aelodau ymwneud yn bersonol ag ymholiadau na chwynion cleifion. Dylid eu cyfeirio at un o swyddogion neu eiriolwr cwynion y Cyngor Iechyd Cymuned ar faterion meddygol neu gwynion posibl am y gwasanaeth iechyd.

CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL

11. Mae cyfrifoldeb ar aelodau'r Cynghorau i barchu a hyrwyddo penderfyniadau corfforaethol neu gasgliadol y Cynghorau, er efallai nad ydynt yn cyd-fynd â'u barn bersonol. Bydd hyfforddiant ar Lywodraethu Corfforaethol yn rhan o'r broses gynefino ar gyfer aelodau'r Cynghorau.

12. Mae rhwydd hynt wrth gwrs i'r aelodau wneud pa sylw bynnag y mynnant fel unigolion.
Ond os byddant am wneud sylw, dylent ddweud yn gwbl glir mai barn bersonol ydyw ac nid barn y Cyngor. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os nad yw'r Cyngor wedi penderfynu eto ar rywbeth neu os yw wedi gwneud penderfyniad nad yw'r aelod yn cytuno ag ef.

ATEBOLRWYDD ARIANNOL

13. Y Prif Swyddog sy'n gyfrifol am roi cyngor i'r aelodau ar faterion ariannol, sicrhau y cydymffurfir â'r gweithdrefnau ariannol perthnasol a rheoli cyllideb y Cyngor yn gyffredinol. Er hynny, mae cyfrifoldeb ar yr aelodau i ystyried cyfleoedd a chyfyngiadau ariannol wrth gytuno ar flaenoriaethau a gweithgareddau'r Cyngor.

14. Dylai'r aelodau gael caniatâd y Prif Swyddog cyn codi treuliau ar fusnes y Cyngor a dylent allu rhoi cyfrif am y treuliau hynny. Gallai archwilwyr y gwasanaeth iechyd herio unrhyw wariant heb ganiatâd, ac mewn achosion eithafol, gallai hynny beri i'r cyhoedd golli parch tuag at y Cyngor a pheri bod camau cyfreithiol yn cael eu cymryd yn erbyn yr aelod.

AMHLEIDIOLDEB

15. Caiff aelodau eu henwebu neu eu hethol i'r Cyngor Iechyd Cymuned i amddiffyn buddiannau holl boblogaeth y Cyngor. Dylent fynd ati i gysylltu â grwpiau lleiafrifol a grwpiau difreintiedig er mwyn iddynt allu cynrychioli'r gymuned gyfan waeth beth fo'u buddiannau a'u blaenoriaethau hwy eu hunain. Er hynny, dylent bob amser geisio ymddwyn yn amhleidiol ac ni ddylai cysylltiadau personol, cymdeithasol, gwleidyddol, proffesiynol na busnes ddylanwadu arnynt. Dylent ddatgan unrhyw fuddiannau a allai wrthdaro. Ni ddylent fynd i'r afael ag achosion neu broblemau unigolion, grwpiau na chyrff enwebu y tu hwnt i'w cyfrifoldebau ehangach. Ni ddylai'r aelodau chwaith geisio cael ffafriaeth iddynt hwy eu hunain, eu teuluoedd na'u cyfeillion, nac ymddwyn mewn ffordd a allai roi'r argraff eu bod yn gwneud hynny.

DATGAN BUDDIANNAU:

16. Mae'n bwysig bod darpar aelodau'n ystyried a oes neu a fydd gwrthdaro buddiannau perthnasol neu faterol yn codi wrth iddynt ymuno â'r Cyngor, ee safle o awdurdod mewn mudiad gwirfoddol neu gorff arall a allai fod yn darparu gwasanaethau o dan gontract i'r gwasanaeth iechyd, neu fuddiant ariannol arall. Dyma'r maen prawf: a fyddai eraill yn ystyried bod yna fuddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol. Os yw hynny'n bosib, dylent drafod y mater â'r corff a fydd yn trefnu eu haelodaeth a gofyn cyngor Prif Swyddog y Cyngor perthnasol os bydd angen gwneud hynny cyn ymuno.

17. Os bydd buddiannau aelod newydd yn gwrthdaro, neu os gallai hynny ddigwydd neu os daw i'r amlwg yn ystod ei gyfnod yn y swydd, dylid datgan hynny a'i gofnodi ar unwaith. Yr aelod sy'n gyfrifol am ddatgan buddiant. Fe ellid herio aelod am beidio â datgan buddiant petai'r buddiant hwnnw'n dod i'r amlwg. Dylai pob Cyngor gadw cofrestr i'r perwyl hwnnw, a honno'n gofrestr y gall y cyhoedd ofyn am gael ei gweld. Os daw gwrthdaro i'r amlwg yn ystod busnes y Cyngor, dylai'r aelod ddatgan hynny ar unwaith. Bydd angen i'r Cyngor ystyried pob achos yn unigol o ran maint y gwrthdaro, ac a yw'n briodol i'r aelod gyfrannu at rannau perthnasol y drafodaeth. Dylai aelodau sy'n pryderu am fuddiannau sy'n gwrthdaro neu a allai wrthdaro drafod hynny â Chadeirydd y Cyngor, gyda chyngor gan y Prif Swyddog.

CYFRINACHEDD

18. Un o elfennau hanfodol rôl fonitro'r Cyngor yw pennu a yw defnyddwyr y gwasanaeth iechyd yn fodlon ag ansawdd y gofal a'r driniaeth a roddir. Ond er mwyn arfer y swyddogaeth honno nid oes angen i'r aelodau wybod pwy yw'r claf, beth yw'r salwch, y cyflwr na natur y driniaeth ac ni ddylent ofyn am yr wybodaeth honno. Os bydd cleifion yn rhoi'r wybodaeth honno o'u gwirfodd yn ystod y trafodaethau, dylai'r aelodau gadw'r wybodaeth yn gwbl gyfrinachol.

19. O dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 a rheoliadau dilynol, mae rhai cyfrifoldebau ar y Cyngor y dylai aelodau gydymffurfio â nhw. Yr egwyddorion sydd wrth wraidd y Ddeddf yw y dylai cyfarfodydd y Cynghorau, y cyd-bwyllgorau a'r pwyllgorau, yn gyffredinol, fod yn agored i'r cyhoedd ac i'r wasg. Dylai'r Cynghorau hefyd gadw at y Cod Ymarfer ar Fod yn Agored yn y GIG, sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth a'r amgylchiadau lle dylid atal gwybodaeth. Dylai'r Cynghorau gadw at ddarpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data.

20. Gallai Cynghorau Iechyd Cymuned o dro i dro gael gwybodaeth nad yw Cod y GIG ar Fod yn Agored yn ymdrin â hi (ee dogfennau cychwynnol a luniwyd gan gyrff y gwasanaeth iechyd wrth lunio polisi, cyn ymgynghori'n ffurfiol a gwneud penderfyniadau). Dylai'r Cynghorau gytuno ar weithdrefn gyda'r cyrff iechyd, a fyddai'n caniatáu i wybodaeth fod ar gael yn gyfrinachol. Os yw'r Cyngor wedi cytuno i dderbyn yr wybodaeth yn gyfrinachol dylai'r aelodau barchu hynny a pheidio â datgelu'r wybodaeth i bobl na chyrff anawdurdodedig heb ganiatâd y corff sydd wedi darparu'r wybodaeth. Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, gellid atal y ddyletswydd i barchu cyfrinachedd, er enghraifft drwy ofynion statudol, cyfraith y wlad neu lle byddai datgelu'r wybodaeth o fudd i'r cyhoedd. Os nad ydynt yn sicr ynghylch cyfrinachedd gwybodaeth, dylai'r Cynghorau ofyn am gyngor cyfreithiol. Ni ddylai'r aelodau roi gwybod am wybodaeth gyfrinachol i'r cyrff sy'n eu penodi.

21. Dylai unrhyw aelod sy'n anghytuno â chynnig a gyflwynir i'r Cyngor yn gyfrinachol gan gorff iechyd godi hynny gyda'r Cyngor gan gynnwys y Cadeirydd a'r Prif Swyddog, a

allai gytuno i drafod y mater â'r corff iechyd perthnasol. Dylai'r Cyngor gytuno ar weithdrefn â'r corff iechyd ar gyfer ymdrin â'r sefyllfaoedd hynny a dylai'r aelodau gadw at y weithdrefn honno.

RHODDION A LLETYGARWCH ACHLYSUROL
22. Dylai'r aelodau fod yn ofalus ynghylch derbyn rhoddion neu letygarwch a gynigir iddynt am eu bod yn aelod o'r Cyngor. Gellir derbyn eitemau nad ydynt yn werthfawr megis dyddiaduron neu galendrau, lletygarwch cymedrol a rhesymol (ee gweithio dros ginio) neu arwyddion bach o werthfawrogiad, ond dylid gwrthod yn gwrtais ond yn bendant unrhyw beth mwy gwerthfawr neu arwyddocaol. Os nad ydynt yn siŵr, dylai'r aelodau gysylltu â'r Prif Swyddog cyn derbyn y rhodd. Dylai'r Cyngor ystyried cadw cofrestr o letygarwch.

CYFLE CYFARTAL
23. Dylai'r aelodau ymddwyn yn gydnaws ag ysbryd a manylion datganiad polisi cyfle cyfartal y Cyngor. Dylai'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog ei gwneud yn amlwg na chaiff sylwadau ac ymddygiad hiliol, rhywiaethol, homoffobig neu wahaniaethol mewn unrhyw ffordd arall eu goddef. Dylai agenda a rhaglen waith y Cyngor adlewyrchu ei bolisi cyfle cyfartal.

YMWNEUD Â'R CYFRYNGAU
24. Dylai pob Cyngor Iechyd Cymuned lunio canllawiau ysgrifenedig ar gyfer ymwneud â'r cyfryngau, ee mae'n well gan rai Cynghorau i'r Cadeirydd neu'r Prif Swyddog wneud sylwadau uniongyrchol i'r cyfryngau. Dylai'r aelodau ymgyfarwyddo â pholisi a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer ymdrin ag ymholiadau'r wasg a chadw atynt.

25. Wrth siarad yn rhinwedd eu swyddi fel aelodau'r Cyngor, boed hynny â'r wasg, mewn fforwm cyhoeddus neu drafodaethau preifat neu anffurfiol, dylai'r aelodau sicrhau eu bod yn cyfleu polisïau neu farn y Cyngor ar y pryd. Mae'n rhaid cael caniatâd y Cadeirydd a/neu'r Prif Swyddog cyn gwneud hynny, ond os nad yw hynny'n ymarferol bosib, dylent roi gwybod i'r Cadeirydd neu'r Prif Swyddog cyn gynted ag y bo modd.

26. Dylai'r aelodau sicrhau bod eu sylwadau'n ystyrlon, yn synhwyrol, yn wybodus, yn ddidwyll, o fudd i'r cyhoedd a heb falais, a'u bod yn hybu enw da a statws y Cyngor. Medi 2015

ANGHYDFOD RHWNG STAFF AC AELODAU
27. Dylid ymdrin ag anghydfod rhwng staff ac aelodau'r Cyngor nad oes modd ei ddatrys yn anffurfiol yn unol â gweithdrefn gwyno'r Cyngor.

YMCHWILIO I GWYNION YN ERBYN AELODAU'R CYNGOR
28. Dylid ymchwilio yn y lle cyntaf i gwynion yn erbyn aelodau'r Cyngor, gan gynnwys methu â chadw at y cod, yn unol â gweithdrefn gwyno fewnol y Cyngor.

TERFYNU AELODAETH
29. Gall aelodaeth gael ei ddirwyn i ben drwy'r dulliau canlynol:

(i) drwy ymddiswyddo
(ii) drwy fethu â mynychu cyfarfodydd neu bwyllgorau'r Cyngor am 3 mis (heb reswm da dros hynny)

(iii) os yw Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ar ôl ymgynghori â'r Cyngor a, lle bo hynny'n briodol, y corff penodi perthnasol) o'r farn nad yw o fudd i'r gwasanaeth iechyd i'r aelod barhau yn ei swydd

(iv) os nad yw'r aelod yn gymwys i barhau oherwydd bod un o'r meini prawf anghymhwysiad yn y Rheoliadau yn berthnasol.

30. Mae terfynu aelodaeth o dan bwyntiau ii. a iii. uchod yn fesurau eithafol a fydd yn cael eu defnyddio ar achosion prin yn unig. Cyn belled ag sy'n bosibl, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Cynghorau ddatrys materion sy'n ymwneud ag aelodaeth yn lleol, cyn bod camau'n cael eu cymryd i gyfeirio'r mater i Lywodraeth Cymru.
Medi 2015

AELODAETH O GYNGOR IECHYD CYMUNED – DATGANIAD WRTH BENODI

Rwy'n cytuno i gadw at Delerau ac Amodau'r Penodiad:

Llofnod:

Dyddiad:

Enw mewn priflythrennau:

Enw'r Cyngor Iechyd Cymuned a'r Pwyllgor y'ch penodwyd iddo: